Ysgol David Hughes

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

18.07.2025

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn academaidd, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Pennaeth ac i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn brysur i gymuned ein hysgol.

Mae ein dysgwyr wedi dangos ymdrech, dyfalbarhad a gwytnwch trwy gydol y flwyddyn - boed hynny wrth baratoi ar gyfer arholiadau, wrth gynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon a'r celfyddydau, neu wrth ymgysylltu â chyfleoedd allgyrsiol ac arweinyddiaeth. Rydym yn falch o'r hyn y mae nhw wedi'i gyflawni a'r ffordd maen nhw'n parhau i gynrychioli gwerthoedd ein hysgol yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Rhaid sôn yn arbennig am ein dysgwyr Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 sydd bellach wedi cwblhau arholiadau ac yn paratoi i gymryd eu camau nesaf. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt ym mha bynnag lwybr y byddant yn ei ddilyn ac yn gobeithio y byddant yn gadael gydag atgofion melys a chyfeillgarwch fydd yn para. Bydd canlyniadau Safon Uwch yn cael eu rhannu yn neuadd yr ysgol ar 14.08.25 (Blwyddyn 13 am 8 yb a Blwyddyn 12 am 9:30 yb) a chanlyniadau TGAU wythnos yn ddiweddarach ar 21.08.25 (Blwyddyn 11 am 9yb a Bl.10 am 10:30yb).

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar wella sgiliau hanfodol ein dysgwyr, yn enwedig llafaredd a darllen. Yn ystod tymor yr haf, cyflwynwyd yr her ddarllen**,** Readathon i ddisgyblion blwyddyn 8 er mwyn ail-gynnau eu cariad at lenyddiaeth. Wrth iddyn nhw dreulio tair wythnos yn darllen, fe wnaethon nhw gasglu noddwyr ar gyfer yr elusen, 'Read for good.' Mae'r elusen hon yn prynu llyfrau i'w defnyddio mewn ysbytai plant ac yn cyflogi 'darllenwyr' i ymweld â'r wardiau plant bob chwe wythnos i ddarllen gyda'r bobl ifanc mewn gofal. Yn ychwanegol, mae'r elusen yn darparu tocynnau llyfrau i'n hysgol i brynu deunyddiau darllen newydd i'n dysgwyr; rydyn ni i gyd yn elwa. Mae disgyblion blwyddyn 8 o dan arweiniad yr adran Saesneg yma wedi codi dros £27,000 i'r elusen hon dros y blynyddoedd a fu. Ar ran yr elusen, hoffem ddiolch i rieni, gwarcheidwaid a ffrindiau am eu cefnogaeth gyda'r her ddarllen hon.

Yn ogystal, mae'r Lolfa Llythrennedd yn profi i fod yn ychwanegiad llwyddiannus i'r adran Saesneg. Mae cadeiriau newydd a llyfrau rhoddedig wedi dod â llawenydd i lawer o ddysgwyr eleni. Rydym yn y broses o recordio staff a dysgwyr yn darllen darnau o'u hoff nofelau yn uchel. Mae'r banc hwn o recordiadau yn cael ei uwchlwytho ar chwaraewyr MP3 yn y Lolfa Llythrennedd er mwyn i ddisgyblion fwynhau gwrando yn ogystal â darllen llyfrau. Mae croeso mawr i unrhyw roddion o lyfrau ffuglen neu ffeithiol yn y dyfodol.

Ar nodyn arall, rwy'n falch iawn o rannu pa mor falch ydym o'r llwyfaniad cerddorol diweddar o 'Grîs' gan ein dysgwyr a'n staff talentog. Roedd eu gwaith caled, eu creadigrwydd a'u hymroddiad yn cael eu harddangos yn llawn, ac roedd y canlyniad yn ddim llai nag ysbrydoledig. O'r perfformiadau bywiog i'r gwaith tîm y tu ôl i'r llenni, roedd pob agwedd ar y cynhyrchiad yn adlewyrchu eu hangerdd a'u hymrwymiad i'w lwyddiant.

Ysgol David Hughes

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

Wrth i ni edrych ymlaen at fis Medi, hoffwn rannu gyda chi rai newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu yn ogystal â newid i bolisi 'dim ffonau' ar draws yr ysgol.

Yn amlwg, mae sicrhau amgylchedd diogel i'n dysgwyr yn flaenoriaeth i ni. Dangosodd arolwg bwlio diweddar a gynhaliwyd yn yr ysgol mai'r toiledau yw'r man mwyaf cyffredin ble mae achosion o fwlio yn digwydd. Bu achosion hefyd o fandaliaeth, difrod i gyfleusterau, ac ymddygiad amhriodol yn y toiledau, yn enwedig yn ystod amser gwersi.

Rydym wedi derbyn negeseuon o bryder am ymddygiad gwrth gymdeithasol yn ein toiledau gan nifer o ddysgwyr, rhieni a staff. O ganlyniad, byddwn yn gweithredu newidiadau o fis Medi 2025 i sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn ddiogel ac yn fwy priodol i bawb.

Rydym wedi ymgynghori â dysgwyr yr ysgol a'r Fforwm Rhieni ac wedi cytuno ar y trefniadau canlynol i sicrhau hawl pob dysgwr i ddefnyddio'r toiledau yn ddiogel. O fis Medi ymlaen, bydd toiledau'r ysgol ar gau yn ystod amseroedd gwersi pan na allwn eu goruchwylio. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddysgwr sydd angen defnyddio'r toiled yn ystod gwers yn gallu gwneud hynny mewn argyfwng/os oes angen, trwy ofyn am gerdyn caniatâd gan ei athro. Wrth gwrs, bydd trefniant personol ar gyfer unrhyw ddysgwr ag anghenion meddygol sydd angen mynediad brys neu reolaidd i'r toiled. Os oes gan eich plentyn angen meddygol sy'n gofyn am fynediad brys neu reolaidd i'r toiled, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol drwy e-bost gyda thystiolaeth feddygol fel y gallwn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth priodol. Bydd pob toiled ar agor yn ystod egwyl a chinio, pan fydd goruchwyliaeth briodol staff yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal, ym mis Medi byddwn yn cyflwyno'r rhaglen KiVa i sicrhau ymateb effeithiol i unrhyw achosion o fwlio a adroddir gan ein dysgwyr. Mae KiVa yn rhaglen gwrth-fwlio sy'n cynnig ystod eang o offer a deunyddiau i ysgolion fynd i'r afael â bwlio. Ewch i https://www.kivaprogram.net/ i ddarganfod mwy.

Ysgol David Hughes

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

Cyn y flwyddyn academaidd newydd, hoffwn atgoffa pob rhiant a gofalwr o ychydig o ddisgwyliadau pwysig:

- **Ffonau Symudol:** Ni ddylid defnyddio'r rhain na'u gweld yn unrhyw le ar y safle yn ystod y diwrnod ysgol. Dylid diffodd ffonau a'u cadw allan o'r golwg nes bod dysgwyr yn gadael y safle. Mae'r polisi hwn yn cefnogi ein ffocws ar ddysgu, lles a chyfathrebu wyneb yn wyneb. Caniateir i ddysgwyr sydd ag angen meddygol i ddefnyddio eu ffonau ac fe fyddant yn cael eu cofnodi ar ein cofrestr anghenion meddygol.

- **Gwisg:** Disgwylir i bob dysgwr ddychwelyd mewn **gwisg ysgol lawn**, wedi'i wisgo'n gywir ac yn unol â'n polisi gwisg. Mae hyn yn cynnwys esgidiau du yn unig a dillad allanol tywyll yn ogystal â'r tei ysgol ar grys gwyn a'n siwmper porffor ar gyfer Bl.7-9 a llwyd ar gyfer Bl.10-11. Bydd myfyrwyr Bl. 12 ac 13 yn gwisgo tei a siwmpwr y Chweched. Mae angen trowsus du smart (dim joggers) neu sgert ddu o hyd priodol gyda theits (dim leggings). Gofynnwn am eich cefnogaeth lawn i sicrhau bod dysgwyr yn gwisgo'n gywir bob dydd. Cofiwch bod dysgwyr sy'n gymwys am ginio di-dâl hefyd yn gymwys i dderbyn grant tuag at wisg ysgol: Grant Hanfodion Ysgol (Grant Datblygu Disgyblion yn flaenorol)

- **Offer:** Dylai pob dysgwr gyrraedd yr ysgol yn gwbl barod ar gyfer dysgu, gyda chês pensil wedi'i stocio'n dda sy'n cynnwys beiros (glas/du a gwyrdd), pensiliau, pren mesur, rhwbiwr, miniwr, rhai pensiliau lliw, uwcholeuwr a chyfrifiannell wyddonol. Mae bod yn drefnus yn gosod y tôn ar gyfer diwrnod ysgol cynhyrchiol.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i'n helpu i sicrhau safonau uchel ar draws yr ysgol.

I orffen, hoffwn ddiolch i'n staff am eu hymroddiad a'u hymrwymiad eithriadol eleni. Dymunwn yn dda i'r staff sy'n gadael Ysgol David Hughes ym mis Awst; Mr Tom Williams, Miss Nia Davies, Ms Lyn Davies, Mrs Ceri Williams, Mr Gethin Hughes, Miss Mared Jones, Ms Olive Thomas, Mrs Sarah Williams, Mrs Angharad Parri Williams, Mr Euros ap Hywel, Ms Sophie White, Miss Ceri Williams, Ms Francoise Lievens a Mrs Annwen Lee. Edrychaf ymlaen at gyflwyno ein haelodau staff newydd i chi ym mis Medi.

Byddwn yn croesawu dysgwyr yn ôl ar **3.9.25**. Tan hynny, rwy'n dymuno gwyliau haf ymlaciol, diogel a phleserus i chi a'ch teuluoedd.

Cofion cynnes,

Mari Roberts.

Mari Roberts
PENNAETH